

Ffordd **Fethodistaidd** o Fyw

Ein galwad yn yr Eglwys Fethodistaidd yw ymateb i efengyl cariad Duw yng Nghrist. Addoli a chenhadu fydd yn nodweddu ein bywyd fel disgyblion i Iesu Grist.

Hyd eithaf ein gallu, a thrwy gymorth Duw:

Addoli

- Byddwn yn gweddïo bob dydd.
- Byddwn yn cyd-addoli yn rheolaidd.
- Byddwn yn ceisio Duw ac yn canolbwyntio arno, yn yr Ysgrythur ac yn y byd.

Dysgu a Gofalu

- Byddwn yn gofalu amdanom ein hunain ac am y bobl o'n cwmpas.
- Byddwn yn dysgu mwy am ein ffydd.
- Byddwn yn arfer lletygarwch a haelioni.

Gwasanaethu

- Byddwn yn helpu pobl yn ein cymunedau a thu hwnt.
- Byddwn yn gofalu am y greadigaeth a holl roddion Duw.
- Byddwn yn herio anghyfiawnder.

Efengylu

- Byddwn yn sôn am gariad Duw.
- Byddwn yn byw mewn ffordd sydd yn denu eraill at yr Iesu.
- Byddwn yn rhannu ein ffydd ag eraill.

**Boed i ni fod yn gyfrwng bendith, oddi mewn i Eglwys
Dduw a thu hwnt, er mwyn trawsnewid y byd.**

Ffordd Fethodistaidd o Fyw

Mae Ffordd Fethodistaidd o Fyw yn ein hannog i dyfu gyda'n gilydd. Gwnewch amser i drafod y cwestiynau hyn gydag eraill yn rheolaidd.

Addoli

- Beth yw eich patrwm ar gyfer gweddïo o ddydd i ddydd?
- Pa mor hawdd, neu anodd, yw gweddïo i chi?
- Beth sydd wedi cyffwrdd â chi yn ddiweddar, mewn addoliad neu yn y Beibl?
- Pryd ydych chi yn ddiweddar wedi teimlo'n agos at Dduw neu'n bell oddi wrtho?

Dysgu a Gofalu

- Sut rydych chi wedi dangos haelioni ers i ni gyfarfod ddiwethaf?
- Sut rydych chi wedi dangos lletygarwch tuag at eraill yn ddiweddar?
- Ym mha ffyrdd rydych chi'n gofalu amdanoch eich hun?
- Ym mha ffyrdd rydych chi'n dysgu ar hyn o bryd a beth ydych chi'n ei ddysgu?

Gwasanaethu

- Sut rydych chi'n ceisio gwasanaethu eraill yn eich cymuned a thu hwnt? Beth sydd wedi eich helpu neu eich rhwystro wrth geisio gwasanaethu eraill?
- Ym mha ffyrdd rydych chi'n gofalu am greadigaeth Duw?
- Ym mha ffyrdd rydych chi'n defnyddio rhoddion Duw (gan gynnwys eich adnoddau ariannol)?
- Pa anghyfiawnderau sy'n eich poeni ar hyn o bryd? Beth rydych chi'n ei wneud yn eu cylch?

Efengylu

- Pryd oedd y tro diwethaf i chi allu siarad am Dduw?
- Pa gyfleoedd sydd wedi bod i rannu eich ffydd ers i ni gyfarfod ddiwethaf?
- Sut rydych chi wedi ymateb i gyfleoedd i rannu eich ffydd?
- A oes unrhyw un y gallech ei wahodd i ystyried y ffydd Gristnogol?

Ym mha ffyrdd allwn ni gefnogi ein gilydd wrth ymrwymo i'r Ffordd Fethodistaidd o Fyw?